Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Newidiadau i'r setliad datganoledig yn cael eu trafod mewn digwyddiad

Lansiwyd y Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru gan gyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru Cheryl Gillan ar 11 Hydref 2011.

Sefydlwyd y Comisiwn annibynnol er mwyn adolygu'r sefyllfa gyllidol a chyfansoddiadol yng Nghymru. Rhannwyd y cylch gorchwyl yn ddwy ran - edrychodd Rhan 1 ar atebolrwydd cyllidol a chyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw yn Nhachwedd 2012. Mae'r Comisiwn yn awr wedi galw am dystiolaeth parthed Rhan II, pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan alw am fewnbwn erbyn 1 Mawrth 2013.

Cynhelir y gynhadledd yn adeilad y Pierhead, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar fore'r 17 Ebrill a fe'i rhedir fel partneriaeth nid am elw rhwng y Sefydliad Bevan, Prosiect DU Undeb Sy'n Newid, WCVA a Positif.

Bwriedir y gynhadledd i edrych ar amlinelliad Rhan II Silk:

Adolygu pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng ngoleuni profiad, ac argymell diwygiadau i'r trefniadau cyfansoddiadol presennol a fyddai'n galluogi Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i wasanaethau pobl Cymru yn well.
Edrychir hefyd ar ble ydym o ran Rhan 1 heddiw yn nhermau datganoli trethi a phwerau benthyca i Gymru.

Bydd llu o arbenigwyr yn bresennol o bob maes polisi er mwyn cael amlinelliad o beth mae datganoli wedi llwyddo a beth mwy y gellir ei wneud gyda'r pwerau sy'n newid. Byddwn yn edrych ar y goblygiadau cyfreithiol gydag arbenigwr wrth law ynghyd aˆ chael trafod yr ymgynghoriad gyda'r Comisiwn Silk ei hun.

I gofrestru ar gyfer y digwyddiad rhad ac am ddim hwn ac er mwyn cael rhagor o wybodaeth cysylltwch a susan@positifgroup.co.uk

Gwobrau gwirfoddoli ar agor ar gyfer enwebiadau

Mae enwebiadau bellach ar agor ar gyfer cynllun gwobrau WCVA sy'n cydnabod gwaith yr holl unigolion a thimau o wirfoddolwyr o Fôn i Fynwy. Caiff Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru eu cyflwyno bob blwyddyn ym mis Mehefin.

Wedi'u sefydlu yn 2004, gan WCVA, mae'n cynnwys pum categori ar gyfer enwebiadau:
• unigolion (25 oed a hy n)
• pobl ifanc (o dan 25 oed)
• grwpiau
• gwirfoddolwyr 'gwyrdd'
• ymddiriedolwyr

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 12 Ebrill. Mae ffurflenni ar gael i'w lawrllwytho fel dogfennau Word, a hefyd cewch lenwi ffurflen electronig yn www.wcva.org.uk. Mae copïau caled ar gael o Lein Gymorth WCVA drwy alw 0800 2888 329.

Gallwch hefyd ein dilyn ar facebook.com/walescva a twitter.com/walescva a chwilio am #voty2013.

Y cyfle olaf i ddod yn gymwys ar gyfer cyllid y Porth

Mae prosiect Porth Ymgysylltu'r WCVA wedi ail-agor ei restr o gyflenwyr cymeradwy – a hwn fydd y cyfle olaf i sefydliadau ddod yn gymwys i ymgeisio am gyllid mewn ardaloedd Cydgyfeirio.

Nod y prosiect yw mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd drwy fuddsoddi mewn sefydliadau sy'n cynnig sgiliau a chyflogaeth i bobl sy'n wynebu rhwystrau at waith fel y medrant symud yn nes at y farchnad lafur.

Agorwyd Cyfnod II y Porth yn Hydref 2012 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnig grantiau o hyd at £150,000. Nod y prosiect yw symud grwpiau o bobl di-waith ac economaidd anweithgar tuag at waith gyda chymorth gan gyflenwyr cymeradwy.

Disgwylir i fudiadau y buddsoddir ynddynt o dan y Porth ddatblygu sgiliau a hyder grwpiau targed a chysylltu eu cynnydd i 'gam nesaf' fel eu hatgyfeirio at brosiect arall, gwirfoddoli, hyfforddiant, cyflogaeth a gefnogir neu nad yw'n cael ei chefnogi.

I ymuno aˆ'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy, bydd angen i fudiadau lenwi a chyflwyno holiadur cyn-gymhwyso (PQQ) erbyn 2pm dydd Gwener 15 Mawrth 2013. Mae'r PQQ a'r ddogfen ganllawiau ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan y WCVA.

Gall unrhyw gyflenwr cymeradwy presennol ehangu ar eu grwpiau neu ardaloedd targed cymeradwy heb ddechrau'r broses PQQ. Mae'r dogfennau ar gyfer gwneud hyn hefyd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan y WCVA.

Am fwy o wybodaeth e-bostiwch dîm y Porth Ymgysylltu yn gateway@wcva. org.uk.
Mae'r Porth Ymgysylltu'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Cronfa Gymdeithasol Ewrop).

System ar-lein ar gyfer Cymorth Rhodd

Cyn hir, bydd elusennau'n gallu hawlio ad-daliadau Cymorth Rhodd ar-lein.

Mae HMRC wedi ysgrifennu at 110,000 o elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol i ddweud wrthynt y gallant, o 22 Ebrill ymlaen, gofrestru i hawlio ad-daliadau ar-lein.

Cyflwynwyd y system, a elwir yn Elusennau Ar-lein, yn dilyn adborth gan elusennau. Dyma oedd gan Sajid Javid, Ysgrifennydd Economaidd yn y Trysorlys, i'w ddweud: 'Mae Elusennau Ar-lein yn gam arwyddocaol tuag at leihau'r baich gweinyddol sy'n gallu llethu elusennau.'

Bydd Cynllun Rhoddion Bach Cymorth Rhodd hefyd yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill. Bydd hwn yn caniataˆu i elusennau a CASC hawlio taliadau ategol ar roddion ariannol o £20 neu lai, heb orfod casglu datganiadau Cymorth Rhodd.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y newidiadau hyn, yna cysylltwch ag Eileen Kinsman, y Swyddog Cymorth Rhodd yn WCVA ar 0800 2888 329, givingwales@wcva.org. uk neu dewchj i un o'n Cymorthfeydd Cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.